Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Gwasanaeth Cymorth yn y Gwaith De Ddwyrain Cymru

## Adroddiad Effaith

Sefydlwyd Hydref 2020 – Mawrth 2022



Cyflwynwyd gan RCS Wales

2022

RCS | LLES AR GYFER GWEITHIO
WELLBEING FOR WORK

# Cefndir a Throsolwg o'r Prosiect

Lansiodd Llywodraeth Cymru Cymorth yn y Gwaith De Ddwyrain Cymru trwy'r Gronfa Ymateb i Covid-19 ym mis Hydref 2020, yn dilyn cynnydd yn y galw am gymorth iechyd meddwl yn gysylltiedig â'r pandemig Covid-19.

Bu'r gwasanaeth yn cefnogi cyfranogwyr hyd at 31 Mawrth 2022

Adeiladodd y gwasanaeth ar Wasanaeth Cymorth yn y Gwaith Llywodraeth Cymru a oedd yn bodoli eisoes, sy'n gweithredu mewn rhannau o Ogledd Cymru a Bae Abertawe ac sy'n cael ei ariannu'n rhannol gan y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd. Mae Cymorth yn y Gwaith yn darparu cymorth sy'n canolbwyntio ar waith a therapïau i bobl gyflogedig/hunangyflogedig â chyflyrau iechyd ysgafn i gymedrol sy'n effeithio arnynt yn y gwaith, gan eu rhoi mewn perygl o absenoldeb salwch tymor hir. Nod y gwasanaeth yw cefnogi dychwelyd i'r gwaith yn fuan, gwella llesiant a chefnogi adferiad iechyd.

Sefydlwyd Cymorth yn y Gwaith De Ddwyrain Cymru i gefnogi pobl gyflogedig a hunangyflogedig sy'n byw neu'n gweithio yng Nghaerdydd, Bro Morgannwg, Casnewydd a Sir Fynwy yr oedd eu hiechyd meddwl neu eu hiechyd corfforol wedi'i effeithio gan y pandemig coronafeirws. Fe'i darparwyd gan RCS, cwmni nid er elw sydd wedi bod yn darparu Cymorth yn y Gwaith yng Ngogledd Cymru ers 2015.

Roedd Cymorth yn y Gwaith De Ddwyrain Cymru wedi'i anelu yn bennaf at gefnogi cyflogeion mentrau micro, bach neu ganolig, na fyddent wedi gallu cyrchu Rhaglen Cymorth i Gyflogeion neu gymorth iechyd galwedigaethol fel arall. .

Darparwyd y gwasanaeth trwy dîm penodol o gydlynwyr achos wedi'u seilio yng Ngogledd Cymru. Roedd y tîm yn darparu cymorth ar y ffôn i gleientiaid ac yn datblygu pecynnau cymorth wedi'u teilwra, yn cynnwys cydgysylltu â chyflogwyr ac atgyfeirio at therapïau pan fo angen. Yn sgîl y cyfyngiadau Covid a oedd yn bodoli ar y pryd, cafodd yr holl gymorth a therapïau eu cyflenwi ar y ffôn neu blatfformau ar-lein. Roedd cymorth ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

# Ymyriadau Therapiwtig

Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth neu gysylltu â RCS Wales, cysylltwch â ni ar

01745 336442 rcs-wales.co.uk hello@rcs-wales.co.uk

Darparwyd yr holl gymorth therapiwtig trwy fframwaith o ddarparwyr y gellid ymddiried ynddynt. Roedd amrywiaeth eang o wasanaethau ar gael, yn cynnwys cwnsela, therapi ymddygiad gwybyddol, therapi derbyn ac ymrwymiad ac anogaeth/hyfforddiant. Defnyddiwyd therapyddion lleol fel y gellid cynnig cymorth wyneb yn wyneb os dyna'r dewis, er na wnaeth llawer fanteisio ar hynny.

**Ein Cyflenwyr Fframwaith**

Agile Therapy
CAIS
MIND Caerdydd
Claire McCluskey
Ffysiotherapi Stryd Grosvenor
Health & Sports Physio Ltd
Medra
MP Counselling
Performance Physio Ltd
Step Forward Physio

# Materion a gyflwynwyd

Roedd cleientiaid y gwasanaeth yn cyflwyno ag ystod o faterion a achoswyd neu a waethygwyd gan y pandemig, yn cynnwys


- Gorbryder ynghylch cael haint Covid-19 / gweld pobl eraill / dychwelyd i'r gweithle
- Gorbryder cymdeithasol
- Anawsterau wrth addasu i'r 'normal newydd'
- Straen ceisio cadw busnesau – yn enwedig busnesau newydd – i fynd
- Pwysau ariannol
- Straen yn gysylltiedig â gweithio o bell
- Newidiadau gorfodol i'w swydd
- Pwysau gwaith a straen gweithio o bell, ofni cael Covid – athrawon a darlithwyr
- Trawma, pwysau gwaith ac amodau gwaith heriol – y Gwasanaeth Iechyd Gwladol
- Profedigaeth
- Bwlio
- Anawsterau corfforol a niwrolegol yn gysylltiedig â Covid hir
- Arferion rheoli gwael yn achosi straen, yn cynnwys micro reoli a gweithredu camau disgyblu

LLES AR GYFER GWEITHIO
WELLBEING FOR WORK


# Ystadegau

## Rhywedd






## Statws y cyfranogwr





## Sut roedd ein cleientiaid wedi clywed amdanom ni





## Y cymorth a Ddarparwyd







# Ystadegau


## Sector cyflogaeth





## Siroedd cleientiaid




# Deilliannau





**Gweithwyr absennol wedi dychwelyd i'r gwaith mewn pedair wythnos neu lai ar ôl cwblhau'r gwasanaeth**




**o'r cleientiaid cofrestredig wedi cofnodi bod eu cyflwr iechyd wedi gwella**

## Y cyflwr iechyd wedi gwella




LLES AR GYFER GWEITHIO
WELLBEING FOR WORK

*Cofnodwyd cyflyrau iechyd gan ddefnyddio holiadur hunan asesu iechyd EQ5D5L

LLES AR GYFER GWEITHIO
WELLBEING FOR WORK

# Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

RCS Wales Gwnaeth RCS Wales gynnal amrywiaeth o weithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid i hyrwyddo'r gwasanaeth yn yr ardal ddaearyddol newydd hon. Roedd hyn yn cynnwys:

- Cyfathrebu â meddygon teulu a rhanddeiliaid allweddol trwy gynhyrchu bwletin electronig penodol i hyrwyddo llwyddiannau'r gwasanaeth
- Cynyddu hyrwyddo'r gwasanaeth trwy'r cyfryngau cymdeithasol yn cynnwys penodi cwmni Cysylltiadau Cyhoeddus i gynorthwyo â datblygu cynnwys allweddol ar gyfer y wasg a gorsafoedd radio lleol yn yr ardal
- Mynd i gyfarfodydd a digwyddiadau rhwydweithio allweddol yn rhithiol yn ardaloedd De Ddwyrain Cymru
- Gweithio â nifer o 'lysgenhadon' anffurfiol a oedd yn awyddus i hyrwyddo'r gwasanaeth ar draws eu rhwydweithiau eu hunain. Rhannu deunyddiau hyrwyddo i gefnogi marchnata ac ymgysylltu, yn cynnwys cardiau busnes a thaflenni electronig
- Mynd i gyfarfodydd chwarterol Nyrsio Seiciatryddol Cymunedol Remploy Cymru
- Mynd i gyfarfodydd amlasiantaeth De Ddwyrain Cymru dan arweiniad yr Adran Gwaith a Phensiynau gyda rhanddeiliaid allweddol De Ddwyrain Cymru yn bresennol
- Mynd i gyfarfod y Ffederasiwn Busnesau Bach i hyrwyddo'r gwasanaeth a gynigiwyd
- Hyrwyddo'r gwasanaeth i sefydliadau rhanddeiliaid allweddol, anfon bwletinau electronig rheolaidd a mynd i ddigwyddiad penodol i'r sector gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru, Busnes Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, y Ffederasiwn Busnesau Bach, Remploy, Gyrfa Cymru,
- Canolfan Cydweithredol Cymru, Cwmnïau Cymdeithasol Cymru, cynghorau tref, MIND, Gweithredu dros Iechyd Meddwl Caerdydd a'r Fro a banc NatWest
- Wedi gweithio â thîm Iechyd Meddwl Cymunedol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a gyfeiriodd lefel uchel o atgyfeiriadau yn ardal Caerdydd
- Wedi ymgysylltu â'r Arweinydd Partneriaethau yn People Plus yng nghyswllt y cynllun Ailgychwyn
- Wedi chwilio am gysylltiadau newydd yn ardal Casnewydd yn ogystal â hyrwyddo'r gwasanaeth i dîm Adnoddau Dynol Casnewydd Fyw a Chyngor Dinas Casnewydd
- Wedi hyrwyddo'r gwasanaeth i'r rhai sy'n gyfrifol am Bresgripsiynau Cymdeithasol yn lleol
- Wedi cyflwyno yng nghynhadledd ddigidol y Senedd – 'Gwella cyflogadwyedd a lleihau'r nifer heb waith yng Nghymru' – ym mis Rhagfyr 2021

# Adborth gan Gleientiaid

Gwnaeth 74% o gleientiaid a roddodd adborth roi sgôr 5 allan o 5 i'r gwasanaeth

"Roeddwn i'n teimlo'n isel iawn ac wedi cael digon pan wnes i ddechrau'r sesiynau. Doeddwn i ddim yn obeithiol y byddai cwnsela ar y ffôn yn gwneud unrhyw wahaniaeth go iawn. Nawr, am y tro cyntaf ers hydoedd, rydw i'n ymddiried yn fy marn fwy ac rwy'n teimlo fy mod i'n gallu ymdopi'n well â rhai o'r pethau sy'n cael eu taflu ata' i yn hytrach na 'pharatoi ar gyfer y trawiad' yn unig"

"Fe wnaeth y gwasanaeth a gefais argraff fawr arna' i. Fe wnaeth wahaniaeth mawr i mi ac rydw i'n hynod ddiolchgar amdano."

"Mae RCS yn newid bywydau. Doedd gen i ddim syniad ei fod yn bodoli cyn i nyrs iechyd meddwl ei argymell. Roedd y staff yn wych, ac roedd y cwnsela'n wych. Fe wnaeth fy helpu i ganfod fy nhraed! Diolch RCS"

"Gwnaeth RCS weithredu'n gyflym iawn pan wnes i ffonio ac fe wnes i ddechrau'r cwnsela'r wythnos wedyn. Roeddwn i wedi codi ac yn symud o gwmpas o fewn wythnos trwy gymorth a chefnogaeth Shane (y cwnselydd). Roedd Shane efo fi bob cam o'r daith yn ystod y tair wythnos i gael fy hun yn ôl i'r gwaith. Roeddwn i'n barod i ddychwelyd i weithio ar 8 Ebrill, a chefais ddychwelyd yn raddol. Fyddwn i ddim wedi gallu gwneud hynny heb y sesiynau. Er bod y sesiynau wedi gorffen rydw i'n parhau i wneud cynnydd ac yn mynd i fwy o siopau"

"Dwi'n ddiolchgar iawn, iawn am y gwasanaeth hwn. Roedd y bobl yn broffesiynol ac yn dosturiol ac maen nhw'n darparu gwasanaeth hanfodol. Cefais fy nhrin ag urddas ac rwy'n falch iawn o Lywodraeth Cymru am gyllido'r gwasanaeth hwn a bod yno yn ystod cyfnod anodd. Daliwch ati efo'r gwaith da, a diolch o galon"

"Mae Andrew a'r cwnselydd oedd yn rhoi cymorth i mi, Sue, wedi newid fy mywyd yn gyfan gwbl. Roedd y ddau yn hollol anhygoel ac ni allaf eu canmol ddigon."